**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Bwrdd Pensiwn Lleol

**MeetingLocation**

**MeetingDate am MeetingTime**

**Yn Bresennol:** I Guy (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Cynrychiolwyr Cyflogwr**
C R Doyle

**Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol**
David White - Unison

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Melissa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd M B Lewis Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim.

---

## 19 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022-2023.

**Penderfynwyd** ethol David White yn Is-gadeirydd ar gyfer gweddill y flwyddyn ddinesig.

## 20 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorwyr C R Doyle ac M B Lewis gysylltiadau personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd, fel aelodau'r Gronfa Bensiwn.

Datganodd Ian Guy a David White gysylltiadau personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd, fel aelodau'r Gronfa Bensiwn.

Datganodd Karen Cobb, Jeff Dong, Jeremy Parkhouse a Melissa Perry gysylltiadau personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd, fel aelodau'r Gronfa Bensiwn.

## 21 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ynghylch cynnydd o ran Cynllun Archwilio 2022 - Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe. Cadarnhawyd y byddai Swyddog Archwilio Cymru'n adrodd i gyfarfod y bwrdd ym mis Tachwedd 2022.

Gwnaeth y Cadeirydd sylw hefyd ynghylch safon ardderchog yr hyfforddiant ar y cyd diweddar a dderbyniwyd gan y Bwrdd ac aelodau'r pwyllgor.

## 22 Adroddiad Disgresiynau Awdurdod.

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi manylion penderfyniad Pwyllgor y Gronfa Bensiwn i lunio a chymeradwyo Rhyddid yr Awdurdod Gweinyddu i weithredu, yn unol â Rheoliadau CPLlL.

Amlinellwyd bod y gwaith o reoli gweinyddiaeth cronfa CPLlL ar adegau yn gofyn am roi rhyddid i'r Awdurdod Gweinyddu i weithredu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLlL wrth iddo ymdrin ag aelodau a gweithwyr  Rhaid i awdurdod gweinyddu ffurfioli ac egluro, naill ai mewn polisi ysgrifenedig neu mewn ffordd arall, os yw'n bwriadu gweithredu'r rhyddid hwn, a sut y gwneir hyn.

Darparwyd argymhellion Dinas a Sir Abertawe ynghylch Rhyddid i Weithredu yr Awdurdod Gweinyddu i’w gymeradwyo yn Atodiad A.

Nododd y Cadeirydd y pwysigrwydd i aelodau'r cynllun o ran cwblhau enwebiadau yn achos marwolaeth.

## 23 Adroddiad am Doriadau.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion unrhyw doriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Pensiwn Lleol. Nodwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

## 24 Gwahardd y Cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Bwrdd wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y bwrdd brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.**

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 25 Diweddariad am Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Pensiwn Lleol am gynnydd a gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

## 26 Crynodeb Buddsoddi.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cynnwys y gwerthusiad o asedau a'r perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2022.

## 27 Adroddiad Chwarterol yr Ymgynghorydd Buddsoddi.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu'r Adroddiad Monitro Buddsoddi ar gyfer Chwarter 2 2022.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Bwrdd a gofynnwyd cwestiynau amrywiol, ac fe'u hatebwyd yn briodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.15am

**Chair**